CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cabinet**
Dyddiad y cyfarfod:	**01/11/22**
Teitl:	**Pennu Ffioedd Cartrefi Gofal – Ffioedd y Sector Annibynnol a'r Awdurdod Lleol**
Pwrpas yr adroddiad:	**Pennu'r ffioedd a argymhellir ar gyfer lleoliadau i bobl hŷn yng Nghartrefi Gofal y Sector Annibynnol yng Ngheredigion yn 2022/23** **ER PENDERFYNIAD**
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Alun Williams – yr Aelod Cabinet ar gyfer Gydol Oes a Llesiant**

1. Cyflwyniad

Pennir ffi safonol ar gyfer y lleoliadau i bobl hŷn y mae'r Cyngor yn eu comisiynu mewn cartrefi Gofal Preswyl a Nyrsio preifat yn y sir. Mae'r ffioedd wedi'u rhannu'n 4 categori gwahanol gyda ffioedd unigol. Yng Ngheredigion, ceir 10 Cartref Gofal yn y sector annibynnol (7 Cartref Preswyl a 3 Chartref Nyrsio) a 5 Cartref Gofal sy'n cael eu rhedeg gan yr Awdurdod Lleol.

Mae'n rhaid i'r Cyngor ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) wrth ystyried a phennu pris am ofal i bobl hŷn yng nghartrefi Ceredigion. Mae gwahanol gyhoeddiadau hefyd yn bodoli megis Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol sef Fframwaith Comisiynu a Chanllawiau Llywodraeth Cymru, a phecyn cymorth 'Gadewch inni gytuno i gytuno' Llywodraeth Cymru.

2. Cefndir

Cynhaliwyd yr adolygiad manwl diwethaf o Ffioedd Cartrefi Gofal fel rhan o'r Broses Pennu Ffioedd ar gyfer 18/19. Mae pecyn cymorth Llywodraeth Cymru 'Gadewch inni gytuno i gytuno' yn awgrymu y dylai dadansoddiad llawn o'r costau gael ei wneud bob 3 neu 4 blynedd.

Roedd proses pennu ffioedd 2021/22 yn un heriol (y sefyllfa derfynol oedd cynnydd o 6.4% ar gyfartaledd yn y ffioedd preswyl a chynnydd o 8.29% ar gyfartaledd yn y ffioedd nyrsio). Un o'r canlyniadau yn 2021/22 oedd cydgytundeb y byddai adolygiad allanol annibynnol yn cael ei gynnal i ganfod gwir gost gofal yng Ngheredigion gyda'r bwriad y byddai canfyddiadau'r adolygiad hwn yn cyfrannu at broses pennu ffioedd 2022/23.

3. Dull Gweithredu a Chanlyniad ar gyfer 2022/23

Comisiynodd y Cyngor sefydliad allanol i gynnal yr adolygiad annibynnol. Gwnaed y gwaith hwn gan gwmni Laing Buisson, sy'n cael ei gydnabod ledled y Deyrnas Unedig fel arbenigwr blaenllaw ym maes economeg Gofal Cymdeithasol ac sydd â phrofiad o gynnal nifer o adolygiadau tebyg.

Dechreuodd yr adolygiad ym mis Ionawr 2022 ac fel mesur dros dro, wrth aros am ganlyniad yr adolygiad, cafwyd cynnydd o 9.13% yn y ffioedd o Ebrill 2022 ymlaen. Cyflwynwyd y cynnydd dros dro i sicrhau bod digon o gyllid ar gael i wireddu polisi Cyflog Byw Gwirioneddol Llywodraeth Cymru ar gyfer staff cofrestredig ym maes Gofal Cymdeithasol o Ebrill 2022 ymlaen.

Mae swyddogion y Cyngor, Laing Buisson a'r Cartrefi Gofal eu hunain wedi rhoi cryn amser, egni ac ymdrech i'r adolygiad. Roedd y broses hollol annibynnol a gynhaliwyd gan Laing Buisson yn cynnwys y canlynol:

- Arolygon casglu data ar-lein (a gwblhawyd gan yr holl Gartrefi Gofal preifat i Bobl Hŷn yn y sir)
- Gwaith gwirio a dilysu helaeth ar ôl i'r arolygon gael eu dychwelyd
- Defnyddio ffactorau safonol wrth ystyried yr elw mewn perthynas â'r costau gweithredu a'r adenillion ar y cyfalaf a ddefnyddiwyd.
- Tystiolaeth genedlaethol am y cymarebau rhwng costau safonol a chostau dementia
- Data a meincnodau cenedlaethol eraill a oedd ym meddiant Laing Buisson
- Ystyried chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) gan gynnwys y rhagolygon diweddaraf yn ystod y flwyddyn
- Ystyried cyfraddau meddiannaeth
- Adroddiad annibynnol ffurfiol yn amlinellu'r dull gweithredu a lefelau'r ffioedd arfaethedig ar gyfer 2022/23
- Cyfarfod wedi'i gynnal gan Laing Buisson i gyflwyno canfyddiadau'r adroddiad i bob cartref gofal a'r Cyngor.

Gwnaeth adroddiad annibynnol Laing Buisson argymell y ffioedd canlynol ar gyfer 2022/23:

Ffioedd Wythnosol am Leoliad (prisiau 22/23)	**Preswyl**	**Preswyl EMI**	**Nyrsio**	**Nyrsio EMI**
Ffioedd 2022/23 (gan gynnwys Gofal Nyrsio a ariennir gan yr Awdurdod Lleol*)	£760.00	£812.00	£891.00	£891.00
Ffioedd 2022/23 (heb gynnwys Gofal Nyrsio a ariennir gan yr Awdurdod Lleol *)	£760.00	£812.00	£883.30	£883.30

* *Gofal Nyrsio a ariennir gan yr Awdurdod Lleol = tua £7.70 yr wythnos. Mae hyn yn rhan o'r gost uwch am leoliad (sydd hefyd yn cynnwys elfen Gofal Nyrsio a ariennir gan y Bwrdd Iechyd sef tua £190 (mae'r ffigwr hwn yn dal i fod yn un dros dro ar gyfer 22/23) os ystyrir bod y lleoliad yn lleoliad Gofal Nyrsio a ariennir).*

Gweler isod dabl sy'n cymharu'r ffioedd newydd â ffioedd 2021/22:

Ffioedd Wythnosol am Leoliad (heb gynnwys Gofal Nyrsio a ariennir gan yr Awdurdod Lleol)	**Preswyl**	**Preswyl EMI**	**Nyrsio**	**Nyrsio EMI**
Ffioedd 2021/22	£644.00	£686.00	£668.15	£711.48
Ffioedd Arfaethedig 2022/23	£760.00	£812.00	£883.30	£883.30
Cynnydd (£)	**+£116.00**	**+£126.00**	**+£215.15**	**+£171.82**
Cynnydd (%)	**+18.0%**	**+18.4%**	**+32.2%**	**+24.1%**

Mae'r ffioedd arfaethedig yn cymharu'n ffafriol â'r sefyllfa ar draws Cymru (gan dderbyn y bydd mwy a mwy o adolygiadau ynghylch Cost Gofal yn cael eu gwneud, sy'n golygu bod y sefyllfa yn newid bob hyn a hyn). Yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael, byddai'r ffioedd arfaethedig yn golygu mai'r ffioedd yng Ngheredigion fyddai'r trydydd uchaf yng Nghymru (o gymryd cyfartaledd cyffredinol o bob un o'r 4 categori ffioedd) ac ni fyddai'r ffioedd yn is na'r pedwerydd uchaf yn unrhyw gategori ffioedd unigol. Fodd bynnag, nid creu tabl cynghrair oedd diben yr adolygiad hwn. Ei ddiben oedd talu gwir gost gofal lleoliadau i bobl hŷn yn y sir.

4. Adborth y Sector Cartrefi Gofal

Gofynnwyd i bob Cartref Gofal roi adborth ffurfiol am yr adroddiad annibynnol a lefelau'r ffioedd arfaethedig ar gyfer 2022/23. Mae pob un o'r tri Chartref Nyrsio wedi derbyn yr adroddiad a'r ffioedd arfaethedig ac mae un o'r cartrefi wedi gwneud yr un fath. Fodd bynnag, nid yw'r chwe Chartref Preswyl arall wedi derbyn yr adroddiad na'r ffioedd arfaethedig. Mae'r cartrefi hyn wedi gofyn am lefelau uwch o ffioedd na'r hyn a gynigir ac mae ganddynt farn wahanol am yr ymdriniaeth o rai cartrefi yn y dadansoddiad o'r data sylfaenol.

5. Casgliad

Ar gyfer 2022/23, mae'r broses o bennu'r ffioedd wedi'i chynnal fel adolygiad annibynnol llawn, a dyma oedd yr hyn yr oedd pob un o'r Cartrefi Gofal wedi cytuno iddo. Mae canlyniad yr adolygiad annibynnol hwnnw yn cynnig cynyddu'r ffioedd a bydd gan hyn oblygiadau sylweddol ar adeg pan fo'r rhagolygon ar gyfer y gyllideb yn ystod y flwyddyn hon ac yn y flwyddyn ariannol nesaf yn heriol. Amcangyfrifir y bydd angen £520,000 y flwyddyn yn ychwanegol i ariannu cost y cynnydd arfaethedig yn y ffioedd ac mae cyllid wrth gefn o £405,000 eisoes wedi'i neilltuo ar gyfer y ffigwr hwnnw.

Serch hynny, ni fyddai'n briodol wyro oddi wrth ganlyniad adolygiad annibynnol sydd wedi dilyn proses resymegol a strwythuredig ac sydd wedi cynnwys pob Cartref Gofal yn y sir. Cynigir felly fod y Cyngor yn gweithredu'r canlyniad o ran y ffioedd yn llawn, wedi'i ôl-ddyddio i Ebrill 2022. Cynigir hefyd y dylid codi'r un lefel o ffioedd yng nghartrefi gofal yr Awdurdod Lleol.

Mae'r Sefydliad Cyflog Byw eisoes wedi cyhoeddi y bydd y Cyflog Byw Gwirioneddol yn cynyddu o £9.90 i £10.90 ac mae gwaith eisoes ar y gweill i

ddechrau ystyried ffactorau chwyddiant dros dro sy'n debygol o effeithio ar ffioedd 2023/24. Mae'r cynnydd yn y ffioedd yn 2023/24 yn debygol o fod yn sylweddol a bydd angen i hyn fod yn rhan o broses cyllideb 2023/24. Fodd bynnag, gan fod y Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer staff gofal Cymdeithasol cofrestredig yn rhan o bolisi cenedlaethol Llywodraeth Cymru, dylai cyllid ar gyfer yr elfen hon fod yn rhan o Setliad Llywodraeth Leol 2023/24.

Mae unigolion yn gwneud cyfraniadau ariannol am eu gofal os bydd asesiadau ariannol yn nodi bod angen iddynt wneud hynny. O ran cartrefi preifat, mae hyn yn seiliedig ar y ffioedd preifat y mae Cartrefi Gofal yn eu gosod eu hunain felly nid oes effaith bellach ar yr unigolion hyn gan fod y cartrefi preifat yn pennu eu ffioedd preifat eu hunain ac yn eu hysbysu amdanynt.

Serch hynny, o ran lleoliadau yng nghartrefi'r Awdurdod Lleol, y ffioedd 'preifat' mewn gwirionedd yw'r ffioedd sy'n cael eu pennu drwy'r adroddiad hwn. Felly, er mai'r bwriad yw ôl-ddyddio costau lleoliadau i'r Cartrefi Gofal, ni fyddai'n briodol, o ystyried yr amser sydd wedi mynd heibio, i ailgyfrifo'r ffioedd sy'n ymwneud â'r unigolion yng Nghartrefi Gofal yr Awdurdod Lleol yn ôl-weithredol, yn ôl i Ebrill 2022. Golyga hyn felly y bydd cost untro yn ystod y flwyddyn sy'n gysylltiedig â hyn. Amcangyfrifir y bydd y gost hon oddeutu £50,000 (gan effeithio ar tua 20 o unigolion), a fydd angen ei ganfod oddi mewn i gyllideb y gwasanaeth. At ddibenion codi tâl, cynigir nodi dydd Llun 31/10/22, sef dechrau'r wythnos, fel y dyddiad y daw hyn i rym.

A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam Naddo

Crynodeb: Ddim yn berthnasol

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Hirdymor:

Cydweithio:

Cynnwys:

Atal:

Argymhelliad:

1. Cymeradwyo'r ffioedd wythnosol canlynol ar gyfer Cartrefi Gofal preifat yng Ngheredigion yn 2022/23:

Preswyl	£760.00
Preswyl EMI	£812.00
Nyrsio	£883.30
Nyrsio EMI	£883.30

gan ddod i rym ar 04/04/2022

2. Cymeradwyo'r ffioedd wythnosol canlynol ar gyfer Cartrefi Gofal Preswyl y Cyngor yng Ngheredigion yn 2022/23:

Preswyl	£760.00
Preswyl EMI	£812.00

gan ddod i rym ar 04/04/2022

	3. At ddibenion cyfraniad unigolion at eu gofal (yn dilyn canlyniad asesiad ariannol), daw'r newidiadau yn ffioedd Cartrefi Gofal Preswyl y Cyngor i rym ar 31/10/2022.
Rhesymau dros y penderfyniad:	Er mwyn cytuno ar ffioedd i bobl hŷn ar gyfer 2022/23 a'u pennu
Trosolwg a Chraffu:	Yn ystod y broses o bennu cyllideb 2022/23, cafodd yr Aelodau wybod bod adolygiad annibynnol yn cael ei gynnal.
Fframwaith Polisi:	Costau lleoliadau a gomisiynwyd a'r Ffioedd a Chostau
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl, Galluogi Cydnerthedd Teuluoedd ac Unigolion
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Rhoddwyd cyllid wrth gefn o £405,000 yng nghyllideb Porth Cynnal ar gyfer 2022/23 cyn i'r broses o bennu'r ffioedd gael ei chynnal gan wybod ei bod yn debygol iawn y byddai cynnydd pellach y tu hwnt i'r cynnydd dros dro o 9.13%. Amcangyfrifir bod y gost o roi hyn ar waith yn £520,000 y flwyddyn a bydd angen i'r gost barhaus o'r £115,000 ychwanegol gael ei adlewyrchu yn sefyllfa Chwarter 2 a phroses pennu cyllideb 2023/24. Ceir hefyd y gost untro ychwanegol o oddeutu £50,000 yn unol â'r dyddiad y daw hyn i rym at ddibenion codi tâl.
Goblygiadau Cyfreithiol:	Dim
Goblygiadau o ran staff:	Dim
Goblygiadau o ran eiddo / asedau:	Dim
Risgiau:	Gallai fod yna gynnydd pellach mewn costau wrth i Gynghorau eraill adolygu Cost Gofal yn eu siroedd. Gallai hyn wedyn gael effaith ar gostau lleoliadau i bobl hŷn y tu allan i'r sir. Gallai dal fod heriau o ran comisiynu yng nghyswllt cartrefi gofal unigol os byddant yn gwrthod ffioedd safonol y Cyngor ar gyfer lleoliadau.
Pwerau Statudol:	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

	Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru yn 2010 - ‘Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol - Fframwaith Comisiynu ac Arfer Da’’
Papurau Cefndir:	Dim
Atodiadau:	Dim
Swyddogion Arweiniol Corfforaethol:	Audrey Somerton Edwards (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro: Porth Cynnal a’r Cyfarwyddwr Statudol) Duncan Hall (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael)
Swyddog Adrodd:	Duncan Hall (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael) George Ryley (Rheolwr Corfforaethol: Caffael)
Dyddiad:	11/10/22